

## Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru



### Gwybodaeth ar gyfer:



### Rhieni/Gofalwyr a Phobl Ifanc ynglŷn â Chwynion am Gynadleddau Amddiffyn Plant

#### *Yn y daflen hon cewch wybod:*

- Pwy sy'n medru gwneud cwyn
- Ynglŷn â beth y gallwch gwyno
- Sut i gwyno
- Beth i'w ddisgwyl os byddwch chi'n gwneud cwyn

## Pwy sy'n medru gwneud cwyn?

- Mae gan bob rhiant, gofalwr neu berson â chyfrifoldeb rhiant\* hawl i wneud cwyn
- Mae gan bob plentyn neu berson ifanc sydd wedi bod mewn cynhadledd achos amddiffyn plant, ac yn medru deall beth sy'n digwydd, hawl i wneud cwyn
- Unigolyn sy'n gweithredu ar ran rhiant, gofalwr neu berson â chyfrifoldeb rhiant, neu blentyn, ar yr amod ei fod/bod yn cytuno ac yn deall

**\* Parental Responsibility (PR) means all mothers and most fathers have legal rights and responsibilities as a parent**

## Am beth allwch chi wneud cwyn?

Gallwch wneud cwyn am un o'r tri rheswm isod, a'r rhesymau hyn **yn unig**:

- 1) Nid ydych o'r farn y dilynwyd y broses gywir;
- 2) Nid ydych yn cytuno â'r penderfyniad i roi enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, neu ddileu enw'r plentyn;
- 3) Nid ydych yn cytuno â'r rheswm dros gofrestru'r plentyn. Hwn yw'r 'categori cofrestru'

## Cwynion eraill

Efallai y byddwch yn anfodlon gyda rhywbeth arall sydd wedi digwydd, neu heb ddigwydd. Os felly, bydd Adran Gwynion yr Awdurdod Lleol yn medru'ch helpu chi.

## Sut ydych chi'n gwneud cwyn?

- Cysylltu â Chadeirydd y Gynhadledd ymhen deg diwrnod gwaith ar ôl y gynhadledd. Mae Cadeirydd y Gynhadledd yn unigolyn annibynnol sydd â'r gwaith o sicrhau y cynhelir cynadleddau amddiffyn plant mewn ffordd deg ac agored.
- Gallwch wneud cwyn yn ddiweddarach ymhen 14 diwrnod gwaith ar ôl ichi dderbyn y cofnodion.

## Beth sy'n digwydd ar ôl imi wneud cwyn?

- ❑ Bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn trefnu cwrdd â chi cyn gynted â phosib i drafod eich cwyn. Bydd yn ceisio datrys y sefyllfa. **Hwn yw Cam 1 – Datrysiaid Anffurfiol.**
- ❑ Os nad yw Cadeirydd y Gynhadledd yn medru'ch helpu chi a'ch bod yn dal yn anfodlon, mae'n rhaid i chi a'r Cadeirydd gytuno ar yr hyn yr ydych yn anfodlon ag ef, a bydd arnoch angen cadarnhau hyn ar bapur. Hwn fydd y sail ar gyfer eich cwyn.
- ❑ Bydd arnoch angen llofnodi'ch cwyn, ac wedi hynny bydd y Drefn Gwyno Ffurfiol yn dechrau. **Hwn yw Cam 2 – Cwyn Ffurfiol.**
- ❑ **Nodwch:** Dylech gysylltu ag Uned Fusnes BDPGC unwaith byddwch wedi derbyn eich llythyr cydnabyddiaeth; os na chysylltwch o fewn y terfyn amser o 22 diwrnod byddwch yn colli'ch hawl i apelio.  
Bydd Panel Annibynnol yn cwrdd i ystyried eich cwyn. Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau yw enw hwn. **Bydd y Panel yn cwrdd ymhen 22 diwrnod gwaith ar ôl ichi lofnodi'ch llythyr.**

## Y Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau

- ❑ Mae'r Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau'n cynnwys pobl o wahanol asiantaethau, er enghraifft, yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd a'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Ni fydd yr un o'r rhain wedi ymwneud â'ch achos.
- ❑ Byddwch yn cael gwahoddiad i gyfarfod y Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau ac yn cael yr holl fanylion, ond ni fydd yn rhaid ichi ddod os nad ydych yn dymuno gwneud.
- ❑ Cynhelir cyfarfod y Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau yn yr un ardal â'r gynhadledd wreiddiol.

### ***Os byddwch chi'n dod i gyfarfod y Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau, byddwch yn medru:***

- ❑ Rhoi tystiolaeth i ategu'ch cwyn. Gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig, neu esbonio i'r panel ar lafar pam yr ydych chi'n anfodlon.
- ❑ Gallwch ddod â rhywun gyda chi i fod yn gefn, er enghraifft, ffrind

neu aelod o'r teulu neu gyfreithiwr.

- Gallwch ddod â thystion gyda chi hefyd er mwyn ategu'ch cwyn.

**Os na fyddwch chi'n dod** i gyfarfod y Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau:

- Byddwch yn dal yn medru anfon tystiolaeth i ategu'ch cwyn.

Rhowch wybod i Gadeirydd y Panel o leiaf pum diwrnod cyn y cyfarfod os byddwch yn dymuno dod â rhywun arall gyda chi, fel y gallwn sicrhau bod yr ystafell yn addas a bod y cyfarfod yn mynd yn ei flaen yn drefnus.

Bydd y panel yn ystyried:

- A ddilynwyd y weithdrefn gywir wrth gynnal y gynhadledd. Pennir y weithdrefn yng Nghlanllawiau Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.
- A yw'r penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn rhesymol yn sgil dilyn y gweithdrefnau'n iawn.
- A yw'r penderfyniad sy'n destun y gwyn yn rhesymol ar sail yr wybodaeth oedd ar gael pan gynhaliwyd y gynhadledd wreiddiol.

**Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Panel Rhyngasiantaethol ar gyfer Cwynion Cynadleddau gwrdd?**

- Bydd y Panel yn rhoi gwybod ichi, yn ysgrifenedig, a yw o'r farn fod gennych reswm i gwyno neu beidio. Os bydd y Panel o'r farn fod gennych chi reswm i gwyno, bydd yn 'cadarnhau' eich cwyn ac yn rhoi gwybod ichi pam.
- Os yw'r Panel o'r farn nad oes gennych chi reswm i gwyno, bydd eich cwyn 'heb ei chadarnhau', a byddant yn rhoi gwybod ichi pam yn ysgrifenedig.
- Bydd y panel cwynion annibynnol yn penderfynu ymhen 25 ar ôl y dyddiad pan lofnodoch chi eich cwyn.

## **Beth *NA ALL* y Panel ei wneud:**

*NI ALL* y Panel dynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant; ni ellir gwneud hynny ond mewn Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant.

## **Beth *ALL* y Panel ei wneud:**

Os cadarnheir eich cwyn bydd y Panel yn gofyn am gynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant o'r newydd fel y gellir ailystyried y penderfyniad a'r categori cofrestru. Dylid cynnal y Gynhadledd Amddiffyn Plant newydd ymhen pymtheg diwrnod gwaith ar ôl i'r Panel benderfynu.

## **Os byddwch chi'n dal yn anfodlon:**

Yn unol â Phrotocol Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Cwynion Ynglŷn â Chynadleddau Amddiffyn Plant, mae penderfyniad y Panel yn derfynol ac nid oes modd apelio yn ei erbyn.



<http://www.northwalessafeguardingboard.wales/>